**SWYDD DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Gweithiwr Ieuenctid ar y Stryd |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Cymunedol |
| **Is-adran:** | Gwasanaeth Ieuenctid |
| **Atebol i:** | Uwch Swyddog Ieuenctid a Chymunedol |
| **Cyfrifoldeb dros:** | Neb |
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Daprau gweithgareddau priodol sy'n ymateb i anghenion addysgiadol a datblygiadol pobl ifanc nad ydynt yn mynychu gwasanaethau ieuenctid a chymunedol presennol yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Gweithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc mewn dull gweithredu ar wahân, symudol yn y gymuned ledled y fwrdeistref sirol.<br><br>Chwarae rôl allweddol wrth ddelio â materion ynghylch anfodlonrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac agenda diogelwch y gymuned yn ehangach drwy weithio â phobl ifanc.<br><br>Cymryd cyfrifoldeb dros gyflenwi arbenigedd/maes arbenigol ar gyfer gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol mewn partneriaeth â chydweithwyr i sicrhau darparu'n effeithiol ledled y fwrdeistref. |
| **Prif Atebolrwydd:** | Gweithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc a leolir ar y stryd oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol.<br><br>Cefnogi partneriaid i gyflawni rhaglen ddysgu benodol sydd wedi ei gosod ar y fframwaith cymwysterau neu gyfrannu at anghenion dysgu ehangach y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (NEET)<br><br>Darparu rhaglenni addysgiadol anffurfiol i bobl ifanc mewn partneriaeth â phobl ifanc a'r gymuned ehangach.<br><br>Dynodi pobl ifanc sy'n wynebu problemau cymhleth ac sydd ag angen cymorth ychwanegol arnynt a chymhwyso tîm ag agwedd deuluol sy'n cyflawni rôl arweiniol y gwaith ac yn sefydlu cysylltiadau â rhieni i gefnogi'r bobl ifanc hyn i gynnal ymgysylltiad a mynd i'r afael ag unrhyw ffactorau ataliol sy'n andwyol i'w datblygiad personol.<br><br>Cynllunio a gwerthuso eich ymarfer eich hun drwy gwblhau |

| | |
|---|---|
| | systemau a gweithdrefnau cytunedig, gan gyflwyno tystiolaeth yn effeithiol o ran eich cyfraniad tuag at nodau ac amcanion y rhaglen.<br><br>Cyflenwi cyfleoedd achrededig anffurfiol a ffurfiol i bobl ifanc yn eich rhaglen eich hun ac â sefydliadau a leolir yn y gymuned ehangach.<br><br>Cynnal systemau sy'n sicrhau bod ymgynghori yn digwydd â phobl ifanc a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Galluogi pobl ifanc i sefydlu a chynnal cysylltiadau â fforymau, yn enwedig Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful, Cyngor Ysgolion ac annog Pobl Ifanc i gael eu cynrychioli ar Fforymau Cenedlaethol.<br><br>Sicrhau fod cynnydd plant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi'n llwyr drwy gynnal tystiolaeth effeithiol a chynhwysfawr ynghylch datblygiad a chyflawniad pobl ifanc, yn unol ag anghenion y gwasanaeth a'r bobl ifanc.<br><br>Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at wybodaeth briodol a gwasanaethau'r cyngor, gan arwyddbostio at wasanaethau eraill a chefnogi pobl ifanc fel sy'n briodol.<br><br>Cefnogi a datblygu cyfranogiad pobl ifanc yn y prosiect, drwy ymgynghoriadau, pwyllgorau ieuenctid a gweithredu'r pecyn cymorth cyfranogi.<br><br>Glynu at bolisïau ac ymarferion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnwys Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Amddiffyn Plant ymhlith eraill.<br><br>Cydsynio â dulliau cytunedig o afael mewn data a'i gofnodi ar gyfer allbynnau a deilliannau'r gwasanaeth.<br><br>Dynodi ac archebu adnoddau perthnasol i gefnogi darparu cwricwlwm cytbwys o weithgareddau dysgu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael, neu a gytunwyd. Bod yn gyfrifol am, a dilyn canllawiau CBSMT, o ran cynnal a chadw stocrestr o'r offer.<br><br>Sicrhau arferion gwaith diogel, glynu wrth weithdrefnau Iechyd a Diogelwch CBSMT.<br><br>Cyfrifoldeb dros unrhyw ddyletswyddau ariannol sy'n aliniedig â'r ddarpariaeth a glynu wrth bolisïau CBSMT o ran rheoliadau ariannol.<br><br>Cyfrifoldeb dros adeiladu rheolaeth ac iechyd yn unol â chanllawiau Iechyd a Diogelwch, polisïau a gweithdrefnau CBSMT.<br><br>Cyflawni unrhyw dasgau eraill yr ystyrir eu bod yn rhesymol i'r rôl. |

| | | |
|---|---|---|
| **Manyleb y Person:** | **<u>Meini Prawf Hanfodol</u>**<br><br>Gradd mewn Gwaith Ieuenctid a Gwaith Cymunedol<br><br>6 mlynedd o brofiad blaenorol o weithio â phobl ifanc.<br><br>Profiad o hwyluso, cyflawni, monitro a gwerthuso rhaglen o gyfleoedd dysgu i bobl ifanc.<br><br>Yn gallu gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol yn cynnwys penwythnosau a gyda'r nosweithiau.<br><br>Meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog.<br><br>Yn gallu gweithio o'i ben a'i bastwn ei hun ac fel aelod annatod o dîm.<br><br>Yn gallu gosod blaenoriaethau a bodloni dyddiadau targed.<br><br>Arddangos sgiliau adrodd yn ôl da.<br><br>Ymroddedig i ymgymryd â rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Meddu ar wybodaeth am y prif bolisïau a deddfwriaethau sy'n berthnasol i weithio â phobl ifanc.<br><br>Meddu ar ddealltwriaeth o'r materion allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc mewn cymdeithas heddiw.<br><br>Rhaid meddu ar y gallu i arwain drwy esiampl, ysgogi staff a | **<u>Meini Prawf Dymunol</u>**<br><br>Profiad o weithio â phobl ifanc ag anawsterau dysgu.<br><br>Profiad o weithio â phobl ag anghenion cymhleth/ awtistiaeth/ ymddygiad heriol.<br><br>Yn gallu siarad Cymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygu perthnasoedd cadarnhaol drwy ymddiriedaeth a gonestrwydd.<br><br>Yn gallu delio â sefyllfaoedd ac unigolion heriol yn effeithiol.<br><br>Dealltwriaeth o faterion anabledd (ymrymuso, dewis, eiriolaeth).<br><br>Profiad o ddarparu cyfleoedd sy’n hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant.<br><br>Arddangos y gallu i weithio mewn amgylchedd nad yw’n stigmateiddio nac yn gorthrymu.<br><br>Gwybodaeth waith o TG.<br>.<br>Meddu ar drwydded yrru. | |

Arwyddwyd gan:
Deiliad y Swydd: ……………………………………………….. Dyddiad: ……………………………

Rheolwr Llinell: ……………………………………………… Dyddiad: ……………………………